**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Mawrth 2026, yn Neuadd Felinfach am 7.30pm.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Cyng. Haf Hughes (Cadeirydd), Melinda Williams, Lynford Thomas Dan Evans, Euros Davies, Wendy Lloyd Lewis, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Gerwyn Owen,

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Hywel Ifans
2. **PERSONOL -** Dim materion personol
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL** - Ni ddatglewyd unrhyw fuddion personol
4. **CADARNHAU COFNODION 10/02/26**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Melinda Williams a'u derbyn yn unfrydol.
5. **MATERION YN CODI**
   **14a. Arwydd Cribyn.** Derbyniwyd cadarnhad bod yr arwydd wedi ei archebu.
   **14 b. Golau Dihewyd.** Cafwyd ymateb gan Simon Bray yn nodi efallai y bydd posibilrwydd o gael golau ychwanegol wedi'i osod o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol, ond bydd yn dibynnu ar flaeonriaethu eraill.
6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Oherwydd salwch nid oedd y Cyng. Ceris Jones yn medru bod yn bresennol.
7. **ADRODDIAD YR HEDDLU** Ni dderbyniwyd adroddiad am y mis hwn.
8. **CYLLID**
   a. Tal y Clerc Chwefror '26 £228.73
   **b.** Lloyds Banc : Ffioedd Cyfrif Cyfredol o 10/01/26 – 09/02/26 £**4.75**
   c. Lloyds Banc : Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd o 10/01/26 – 09/02/26 £**4.25**
   d. Taliadau diwedd Blwyddyn Ariannol
      i. Neuadd Dihewyd £30
      ii. Neuadd Felinfach £40
      iii. Tony Bretland **£**664.43 (yn cynnwys codiad o 2%)
      iv. Les Verdin 110.71 (yn cynnwys codiad o 2%)
      v. Penderfynwyd talu Aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn 2026-27 ar gost o £317.00

ii. **Payroll.** Mae Antur Cymru yn rhoi'r gorau i gynng gwasanaeth Payroll. Trafodwyd 3 dyfnbris oedd wedi dod i law:

1. PJE - £75.00 i ymaelodi a £35 y mis
2. Arwyn Vobe £40.00 y mis
3. LHP £ 10 y mis

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol derbyn cynnig LHP. Bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau priodol gyda'r cwmni.

9. **CYNLLUNIO –** dim i'w drafod

10. **CYFARFOD UN LLAIS CYMRU 16/2/26**

Mynychwyd y cyfarfod ar-lein gan Y Cyng. Lynford Thomas a'r Clerc. Cafwyd gwybodaeth am y trefniadau sydd ar y gweill ar gyfer uno Cynghorau. Bydd manylion pellach yn dod i law ond awgrymwyd y dylid dechrau'r broses o drafod gyda Llanwnnen cyn gynted â phosib. Yn dilyn sgwrs rhwng Eleri â Chlerc Llanwnnen, penderfynwyd cynnal cyd-gyfarfod yn dilyn yr AGM ym mis Mai.

11. **PENODI GOFALWR I AROSFA BWS DIHEWYD**

Yn dilyn ymddiswyddiad Mr. Les Verdin, trafodwyd olynydd a chyfradd tâl. Penderfynwyd dechrau'r tâl ar £110. 71 sef y swm a dderbynir gan y clanhawr presennol am eleni. Gobeithio bydd enw wedi dod i law erbyn y cyfarfod nesa.

12. **GWOBR Y GYMUNED**

Cafwyd trafodaeth am ddyfodol Gwobr y Gymuned. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr a phleidlais ar nifer o opsiynau penderyfnwyd cadw'r wobr am eleni i wobrwyo grŵp o fewn y gymuned wedi ei enwebu mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor ar y cyd.

13. **GOHEBIAETH**

i. **Derbyniwyd lythyron diolch oddi wrth:**
Eisteddfod Dihewyd am y rhodd o £125
Marie Curie am y rhodd o £50.00

14. **UNRHYW FATER ARALL**

a. Noddodd y Cadeirydd ddiolch Côr Corisma am y rhodd o £100
b. Nodwyd dau fater ynglŷn â chroesffordd Temple Bar, sef bod twll mawr yn yr hewl sy'n beryglus a diffyg llinell wen ar yr hewl. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd am y ddau fater.
c. Nododd y Cyng. Lyn Williams bod angen tacluso'r droedffordd newydd ger Cae Chwarae Cribyn**.** **Penderfynwyd** cysylltu â'r Swyddog perthnasol o fewn y Sir.
d. Nododd y Cyng. Lynford Thomas bod y broblem baw cŵn wedi ail-godi yn Felinfach ar waethaf yr holl arwyddion. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Warden Cŵn o fewn y Sir.

15. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

14eg Ebrill 2026 yn Ysgol Cribyn